

Dod i adnabod eich ffôn clyfar neu lechen

Pam ddylech chi ddod i adnabod eich teclynnau?

Mae ffôn clyfar neu lechen yn offer gwyh i'ch helpu i gael mynediad i'r byd ar-lein a chynyddu'r ffyrdd y gallwch gael gwybodaeth a chyfathrebu. P'un a yw hyn i gysylltu ag anwyliaid, dod o hyd i adloniant neu arbed arian, mae'r dyfeisiau yma i helpu a gallant drawsnewid eich bywyd.

Wedi dweud hynny, gwyddom y gall hyn fod yn llethol ac mae'n siŵr bod gennych lawer o gwestiynau: felly rydym yma i helpu.

Bydd y ddalen hon yn dangos i chi sut i ddod i arfer â'ch dyfais newydd, magu eich hyder gyda sgriniau cyffwrdd a mwy!

* Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu?

1. Sut i ddefnyddio eich sgrin
2. Sut i ddefnyddio noddweddion allweddol eich dyfais

Deall eich dyfeisiau

Ffôn clyfar

Dyfais symudol y gellir ei defnyddio i gael mynediad i'r rhyngwrdd. Mae iPhone yn un enghraifft.

Llechen

Cyfrifiadur cludadwy heb fysellwrdd ffisegol. Yn hytrach, mae'r bysellwrdd yn ymddangos ar y sgrin.


Deall eich sgrin gyffwrdd

Mae ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen yn cynnwys 'sgrin gyffwrdd'. Mae'r rhain yn sgriniau y gallwch gyffwrdd ynddynt i lywio'r ddyfais.

Mae sgrin gyffwrdd yn wych: mae'n golygu dim mwy o glicio botymau di-rif er mwyn chwilio a llawer mwy o ryngweithio â'ch dyfais, oherwydd gellir ei defnyddio i arddangos ac fel pad cyffwrdd.

Bydd meistrolir'r nodwedd hon yn hollbwysig i chi wneud y defnydd gorau o'ch profiad digidol. Os byddwch yn cael anhawster gyda'ch sgrin gyffwrdd, efallai y bydd angen pwyntil arnoch (offeryn bach siâp beiro y gellir ei ddefnyddio ar y sgrin gyffwrdd) mae'r rhain yn gymharol rad a hawdd eu prynu. Isod mae nodweddion allweddol eich dyfais

Isod mae nodweddion allweddol eich dyfais



Synhwyrdd Hafan/Dull adnabod cyffwrdd

Cynyddu a lleihau'r sain

Dylai fod gennych ddau fotwm wrth ymyl ei gilydd ar ochr eich dyfais (weithiau mae'r rhain wedi'u labelu gyda + a -). Er mwyn cynyddu'r sain, pwyswch y botwm uchaf, i leihau'r sain pwyswch y botwm isaf.

Clo allwedd

Ar ochr arall eich dyfais bydd botwm arall. Gallwch bwyso hwn i gloi eich dyfais. Mae hyn fwyaf defnyddiol pan fyddwch wedi gorffen defnyddio eich dyfais.

Dod i adnabod eich ffôn clyfar neu lechen parhad

Bydd gan y rhan fwyaf o ddyfeisiau swyddogaeth awto-gloi'r sgrin hefyd, sy'n cloi'r ddyfais ar ôl cyfnod o anweithgarwch.

Troi'r sgrin

Gellir defnyddio pob ffôn clyfar yn y modd portread a thirlun. Ar gyfer pethau fel gwylio rhaglenni teledu (ar apiau fel Netflix a BBC iPlayer) bydd angen i'ch dyfais fod yn y modd tirlun. Er mwyn galluogi hyn bydd angen i chi fynd i'r tab a chaniatáu hyn .

I wneud hyn, newidiwch gyfeiriadedd eich dyfais a chlicio ar yr  er mwyn caniatáu i'ch dyfais adlewyrchu eich dewis o ran cyfeiriadedd y sgrin. Yna, os byddwch yn dal eich ffôn yn llorweddol, bydd y sgrin yn troi yn unol â hynny.

Sgrollo

Gallwch wneud hyn drwy gyffwrdd y sgrin yn ysgafn gyda blaen eich bys a'i symud i fyny'r sgrin i sgrollo i lawr ac i lawr y sgrin i sgrollo i fyny. (Rydyn ni'n gwybod bod hyn y gwrthwyneb i'r hyn rydych yn ei gredu ond rydyn ni'n addo ei fod yn gweithio!)

Sweipio

Sweipio yw'r dewis gorau os ydych eisiau symud yn gyflymach neu ar draws i sgrin arall ar y ddyfais. I sweipio, rhwch eich bys ar y sgrin a'i symud ar draws y sgrin yn gyflym (i'r chwith neu'r dde) cyn gadael fynd ar ôl hanner ffordd.

Teipio

Dyma'r dull syml o dapio ar fysellwrdd mewnol y ddyfais i greu testun. Mae'n nodwedd allweddol ar gyfer cyfathrebu a chwilio am wybodaeth. Bydd yn eich galluogi i anfon negeseuon testun ac e-bost, chwilio am y tywydd a newyddion a'ch helpu i wneud rhywfaint o siopa o bosibl. Dylai eich bysellwrdd ymddangos pan fyddwch wedi pwyso ar far

chwilio eich dyfais neu eich bod yn defnyddio apiau sydd angen testun (er enghraifft WhatsApp). Ar ôl i chi ganfod eich bysellwrdd, mae'n werth ymarfer rhywfaint, yn arbennig oherwydd gallai'r llythrennau fod yn llai na'r hyn rydych wedi arfer eu defnyddio. Beth am roi cynnig ar deipio drwy anfon neges destun neu e-bost at eich cynorthwydd?

Bydd y botwm hwn yn **123** eich galluogi i gael mynediad at atalnodi a rhifau.

Sut i chwyddo i mewn – ymarfer ar fap

'Chwyddo i mewn' yw addasu'r arddangosiad er mwyn i'r ddelwedd/gwybodaeth ar y sgrin ymddangos yn fwy ac agosach. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer delweddau sy'n llai clir neu destun sy'n fach.

I chwyddo i mewn, rhwch ddau fys yn agos at ei gilydd ar yr ardal o'r sgrin yr ydych eisiau ei gwneud yn fwy cyn gwahanu eich bysedd nes bydd yr ardal ffocws mor fawr ag y byddwch yn dymuno. Y ffordd orau i ymarfer hyn yw ar fap neu ffotograff.

Apiau

Mae'r teils a'r logos bach ar eich sgrin yn cynrychioli rhaglenni, neu apiau. Mae yna apiau ar gyfer unrhyw beth bron: bancio, y tywydd, chwarae gemau: unrhyw beth y gallwch ei enwi, bydd ap ar ei gyfer. Mae rhai apiau am ddim, a bydd rhaid i chi dalu am rai apiau eraill. Bydd llawer o'r rhain wedi'u hymgorffori eisoes yn eich dyfais, ond os hoffech wybod mwy am lawrlwytho apiau, mae canllaw arall defnyddiol ar gael yn bt.com/seniorskills. Gallwch naill ai glicio ar y ddolen hon neu ei deipio yn eich porwr gwe. Gallwch gael mynediad ar flaenau eich bysedd. Apiau hefyd yw'r offer gorau i chi roi cynnig ar eich sgiliau newydd.

Wi-fi

I wneud y defnydd gorau o'ch dyfais, bydd angen i chi sicrhau bod eich ffôn clyfar neu lechen wedi cysylltu â'r rhyngwrwyd drwy wi-fi neu rhyngwrwyd symudol. Mae canllaw ar sefydlu cysylltiad wi-fi ar gael drwy glicio ar neu deipio'r cyfeiriad canlynol i'ch porwr gwe bt.com/seniorskills.

Cynghorion ac awgrymiadau a dysgu pellach

Rhoi cynnig arni

Po fwyaf y byddwch chi'n ymarfer, yr hawsaf y bydd i chi, felly chwaraewch gyda'ch dyfais a'i apiau. Sweipiwch trwy'r tudalennau ar eich sgrin gartref, sgroliwch trwy erthyglau newyddion, teipiwch neges a chwyddo i mewn ar eich mapiau.

Noder:

Mae ymarfer yn allweddol. Peidiwch â phoeni am dapio'n ddamweiniol ar rywbeth. Wedi'r cyfan, bydd un clic ar y botwm yn ôl neu'r botwm hafan yn eich dychwelyd i'ch man cychwyn.

Dolenni i ddysgu pellach

Am ganllawiau defnyddiol pellach ar ddechrau defnyddio eich ffôn, gallwch naill ai glicio ar y dolenni canlynol neu deipio'r geiriau yn eich peiriant chwilio a chlicio ar y canlyniad cyntaf. Learn My Way-Good Things Foundation: www.goodthingsfoundation.org/learn/learn-my-way/ Smartphones & tablets | Digital Unite: www.digitalunite.com/technologyguides/smartphones-tablets